



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



Gwerthusiad Economaidd
o Fwyd a Diod Cymru – 2020

Drwy gydol 2020, cafodd Covid-19 effaith fawr ar ddiwydiant bwyd a diod Cymru. Mae'r ffigurau a ddefnyddir dwy gydol yr adroddiad hwn yn cynnwys data hyd at ac yn cynnwys 2020, ond casglwyd y data hwn i raddau helaeth cyn neu'n gynnar iawn yn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth. Oherwydd hyn, ni fydd y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'n llawn effaith Covid a deimlir ledled y diwydiant bwyd a diod Cymru yn ystod 2020.

Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod


Parhaodd cadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru i dyfu'n 2020 cyn Covid. Roedd gan fusnesau yn y sector gyfanswm gwerth trosiant o £22.4bn ar gyfer 2020, cynnydd o 1.2% o'r £22.1bn ar gyfer 2019. Gwelwyd gostyngiad yn yr allforion yn ystod 2020 o'i gymharu â 2019, gan ostwng o £570m i £551m ar gyfer 2020, gostyngiad o 3.4%. Cynyddodd GVA ar gyfer bwyd a diod Cymru 3.9% rhwng 2018 a 2019, o £3.70bn i £3.85bn¹.

Cododd nifer yr unedau busnes yn y sector ychydig yn 2020, gan gynyddu 1% o 27,605 yn 2019 i 27,815. Dosbarthwyd 85% o'r busnesau o fewn y sector fel Micro (gan gyflogi llai na 10 o bobl) yn 2020, yr un swm â'r flwyddyn flaenorol. O'i gymharu â chenhedloedd eraill y DU Cymru oedd â'r gyfran uchaf ond un o fusnesau Micro yn y gadwyn cyflenwi bwyd a diod, gyda Lloegr yn 78%, yr Alban 79% a Gogledd Iwerddon 90%.

Yn 2019 roedd y gadwyn gyflenwi yn cyflogi 239,300 o unigolion yng Nghymru – cynnydd o 4.3% ers 2018 – gan gyfrif am 17.8% o gyfanswm gweithlu Cymru. Roedd 48% o gyflogeion, gweithwyr amaethyddol a ffermwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Enillion blynyddol canolrifol yn y sector ar gyfer 2020 oedd £16,930, i fyny 9.4% o 2019. Cyflog canolrif y DU ar gyfer y sector oedd £17,827 yn 2020, a oedd wedi cynyddu 3.6% ar y flwyddyn flaenorol. Enillodd 51% o weithwyr yng nghadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru y cyflog byw yn 2020, i fyny o 44% yn 2019.

Parhaodd bwyd a diod o Gymru i ehangu ei gynnyrch arobryn, gan ennill 198 o wobrau blas gwych yn 2020, i fyny o 196 y flwyddyn flaenorol. Yn 2021, caffaelodd Cymru enw bwyd gwarchoddedig newydd hefyd o dan Gynlluniau Dangosyddion Daearyddol newydd y DU, Cig Oen Morfa Halen Gŵyr, gan ddod â chyfanswm nifer yr enwau bwyd gwarchoddedig i 17.

Nifer y Gweithwyr ym Mhrif Sectorau Bwyd a Diod y Gadwyn Gyflenwi, 2019



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES).

1. Mae'r gwerthoedd GYC yn yr adroddiad hwn yn is na'r blynyddoedd blaenorol oherwydd newid mewn methodoleg. Manylir ar y fethodoleg hon a'r newid diffiniad yn Atodiad B.

Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod – Canolbwyntio ar Dwf

Er bod nifer y busnesau yn y sector wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn Micro (llai na 10 o weithwyr) neu'n Fach (10–49 o weithwyr). Roedd 685 o fusnesau Micro a 630 newydd o fusnesau bach rhwng 2014 a 2020, ond dim ond 65 o fusnesau Canolig newydd (50–249 o weithwyr), tra bod nifer y busnesau Mawr (250+ o weithwyr) wedi gostwng 10, o 85 i 75, gan nodi y gallai busnesau fod wedi cael traferth pontio o fach i ganolig, a chanolig i fawr.


Yn ogystal, roedd 38% o gyflogeion yn y sector yn gweithio i fusnesau Micro a Bach, a 54% ar gyfer busnesau mawr, gan nodi bod gan gwmnïau canolig gyfran gyflogaeth llawer is o'r farchnad, sef 8% yn unig.

Yr is-sector a gafodd y twf mwyaf mewn unedau busnes rhwng 2014 a 2020 oedd Arlwyo Bwyd, gyda 1,485 o unedau newydd, a oedd hefyd â'r twf mwyaf mewn unedau busnes Micro (+950), Bach (+490) a Chanolig (+40) o'r is-sectorau. Amaethyddiaeth a Physgota oedd â'r


gostyngiad mwyaf mewn unedau busnes, gan leihau 170, ac yna'r sector Cyfanwerthu a Manwerthu Bwyd, a welodd ostyngiad o 75.

Y tu allan i'r sector Arlwyo Bwyd, Diodydd oedd â'r cynnydd mwyaf yn nifer y busnesau Micro (+55, gan gyfrif am yr holl fusnesau newydd yn y sector); Cyfanwerthu a Manwerthu Bwyd oedd â'r twf uchaf o ran busnesau bach (+120) a busnesau canolig (+15); a'r sector Cynhyrchion Bwyd Eraill oedd â'r cynnydd mwyaf mewn busnesau mawr (+5).

Nifer yr unedau lleol fesul sector, 2020



Trosiant fesul sector (£miliynau), 2020



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR)

| Maint y busnes | Unedau Lleol 2020 | % Cyfanswm unedau | Trosiant 2020 (£m) | % Cyfanswm trosiant | Cyflogaeth 2020 (000au) | % Cyfanswm cyflogaeth |
|------------------|-------------------|-------------------|--------------------|---------------------|-------------------------|-----------------------|
| Mawr (250+) | 75 | 0.3% | 14,452 | 64.6% | 101.3 | 54.0% |
| Canolig (50–249) | 390 | 1.4% | 2,044 | 9.1% | 15.9 | 8.5% |
| Bach (10–49) | 3,595 | 12.9% | 1,979 | 8.8% | 34.1 | 18.2% |
| Meicro (0–9) | 23,750 | 85.4% | 3,908 | 17.5% | 36.3 | 19.3% |
| Total | 27,815 | 100.0% | 22,383 | 100.0% | 187.7 | 100.0% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR). Daw'r ffigurau cyflogaeth yn y tabl hwn o'r IDBR, yn wahanol i'r ffigurau cyflogaeth a drafodwyd yn ystod adrannau eraill yr adroddiad hwn, sy'n dod o Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Busnes (BRES). Argymhellir defnyddio data BRES dros yr IDBR wrth drafod ffigurau cyflogaeth, fodd bynnag at ddibenion cymharu ffigurau cyflogaeth ar draws meintiau busnes, defnyddiwyd data cyflogaeth IDBR. Nid yw'r ffigurau cyflogaeth yn y tabl uchod yn cynnwys cyfran sylweddol o lafur amaethyddol.

Sector Sylfaen Bwyd Cymru

Mae Sector Sylfaen Bwyd Cymru yn cynnwys busnesau bwyd a diod sy'n cynhyrchu, prosesu, gweithgynhyrchu a chyfanwerthu nwyddau bwyd a diod, gan gynnwys busnesau eilaidd sydd eu hangen yn y diwydiant bwyd a diod².


Yn 2020 fe brofodd y sector ostyngiad bychan o 2019, gyda throshiant yn gostwng 3.2% o £8.2bn i £7.9bn. Er 2015 fodd bynnag mae'r sector wedi gweld twf sylweddol, gan gynyddu 12.5% o £7.0bn.

Roedd 1,465 o unedau busnes lleol yn y sector yn 2020, cynnydd o 125 ers 2015. Dosbarthwyd 72%

o'r busnesau yn y sector fel Micro yn 2020, 1% yn fwy na 2019. Mae hyn yn debyg i ffigurau gwledydd eraill y DU, gyda Lloegr yn 75%, Gogledd Iwerddon ar 70%, a'r Alban yn 65%.

Roedd y sector yn cyflogi 33,600 o bobl yn 2019, gostyngiad o 6.6% o'i 36,000 yn 2018. Y cyflog canolrif ar gyfer y sector yng Nghymru oedd £24,008 yn 2020, gan gynyddu 4.5% ers 2019. Ar draws yr un cyfnod cynyddodd enillion canolrifol y DU 3.2%, hyd at £25,548. Enillodd 73% o'r holl weithwyr yn Sector Sylfaen Bwyd Cymru gyflog byw neu'n uwch yn 2020, i fyny o 69

Trosant fesul Sector 2015 – 2020, (£miliynau)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR).

2. Megis cynhyrchu cynhyrchion plastig a gwyrdr a ddefnyddir yn y system fwyd. Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r categorïau sy'n ffurfio'r sector sylfaen yma.

Gweithgynhychu Bwyd a Diod

Yn yr un modd â'r sector Sylfaen, dangosodd sector Gweithgynhychu Bwyd a Diod Cymru ostyngiad bach yn 2020 hefyd. Gostyngodd trosiant y sector 7.4% rhwng 2019 a 2020, o £5.2bn i £4.9bn. Roedd GVA ar gyfer y sector yn £1.74bn yn 2019, cynnydd o 1.6% o £1.72bn yn 2018.

Cyflogodd y sector 22,200 yng Nghymru yn 2019, i lawr 8.7% o'r 24,315 yn 2018. Roedd 93% o weithwyr yn sector gweithgynhychu bwyd a diod Cymru yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Y cyflog canolrif ar gyfer y sector yn 2020 oedd £23,504, gan gynyddu 8.9% o £21,580 y flwyddyn flaenorol. Yn 2020 roedd 68% o unigolion yn y sector yn ennill y cyflog byw, i fyny o 65% y flwyddyn flaenorol.


Roedd 590 o unedau busnesau gweithgynhychu bwyd a diod yng Nghymru yn 2020, i fyny o 585 y flwyddyn flaenorol.

Roedd 69% o'r 590 o unedau busnes yn cael eu hystyried yn Ficro, mae hyn yn cyfateb i Loegr sydd hefyd yn 69%, ond yn uwch na Gogledd Iwerddon (64%) a'r Alban (59%).

Yn 2020 roedd cyfradd dechrau busnesau yn 14% yn y sector gyda 60 o fusnesau newydd, i fyny o 11% yn 2019. Y cyfraddau goroesi 5 mlynedd ar gyfer busnesau yn y sector o 2015-2020 yw 40%, i lawr o werth 2014-2019 o 45%.

Dros gyfnod tymor hwy mae'r sector wedi gweld twf cryf; cynyddodd trosiant 17% rhwng 2015 a 2020 (o £4.2bn i £4.9bn), a chynyddodd GVA 21% rhwng 2015 a 2019 (o £1.44bn i £1.74bn). Yn ogystal, cynyddodd y cyflog canolrifol 26.4% rhwng 2015 a 2020 (o £18,598 i £23,504), sy'n fwy na chynnydd o 16.3% yn y DU dros yr un cyfnod.

Trosiant fesul Sector 2015 – 2020, (£miliynau)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyng-adrannol (IDBR).

Cig a Chynhyrch Cig

Roedd gan sector Cig a Chynhyrchion Cig Cymru drosiant o £1.1bn yn 2020, gostyngiad o 6.4% o £1.2bn y flwyddyn flaenorol.

Roedd y sector yn cyflogi 5,155 o unigolion yn 2019, i lawr 4.2% o 5,380 yn 2018. Roedd 95% o'r unigolion a gyflogwyd yn y sector yn 2019 yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Y cyflog canolrif ar gyfer y sector yn 2020 oedd £21,531, cynnydd o 4.7% o'r flwyddyn flaenorol. Yn 2020 roedd 60% o weithwyr yn y sector yn ennill y cyflog byw, i fyny o 56% yn 2019.

Roedd 65 o unedau busnes yn y sector yn 2020, sy'n cyfateb i 2019. Hyd at fis Ionawr 2021, nifer y sefydliadau a gymeradwywyd ar gyfer trin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion cig oedd 44 ar gyfer cig coch a 30 ar gyfer dofednod. Mae hyn ychydig yn is o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd â 47 ar gyfer cig coch a 33 ar gyfer dofednod.

Cyfanswm gwerth allforion ar gyfer cig a chynhyrchion cig yn 2020 oedd £199m. Mae hyn yn cynnwys £54.9m o allforion anifeiliaid byw, a £144.5m o gynhyrchion cig. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 17% o'r flwyddyn flaenorol, o werth o £171m. Yn unigol, cynyddodd allforio anifeiliaid byw £7m, a chynhyrchion cig £21.4m o flwyddyn i flwyddyn.

Yn ôl HCC, yn 2020 roedd allforion cig defaid o dras Gymreig yn werth tua £153m, a amcangyfrifwyd, ochr yn ochr ag allforion offal, werth cyfanswm o £156m. O ran gwerth, aeth tua 90% o gig defaid a allforiwyd i'r UE. Amcangyfrifwyd bod allforion cig eidion o Gymru yn 2020 yn werth £54m, ac roedd tua 82% ohonynt yn cael eu hallforio i'r UE.

Cynyddodd gwariant manwerthu ar gig yng Nghymru 10.4% yn 2020 o'i gymharu â 2019, hyd at werth o £912m. Roedd lefel y twf ychydig yn is na'r DU gyfan, a oedd â chynnydd o 11.1%. Mae'n debygol i'r cynnydd mewn gwariant ar gig ym maes manwerthu gael ei effeithio gan gau'r sector gwasanaeth oherwydd Covid, gan gynyddu'r cyflenwad a'r galw am gig drwy siopau manwerthu.

O ran prydau parod wedi'u hoeri, parhaodd i ddal y gyfran uchaf o'r categori, er gwaethaf y gyfran yn gostwng 2.2%. Dilyniir y categori hwn gan ddofednod ffres a chig eidion ffres. Mae'r tri maes hwn gyda'i gilydd yn cyfrif am 42.4% o'r gwariant manwerthu ar gig.



— ” —

Roedd gan sector Cig a Chynhyrchion Cig Cymru drosiant o £1.1bn yn 2020, gostyngiad o 6.4% o £1.2bn y flwyddyn flaenorol.

— “ —

Diodydd

Roedd gan y sector diodydd yng Nghymru drosiant o £896m yn 2020, gan ostwng 20.4% o £1.1bn yn y flwyddyn flaenorol. Er bod y newid o flwyddyn i flwyddyn yn sylweddol, mae trosiant 2020 yn gyson â gwerth 2018 o £902m, sy'n dangos y gallai trosiant 2019 fod wedi bod yn uwch na'r safon.

Roedd y sector yn cyflogi 1,300 o unigolion yn 2019, i lawr 21.7% o 1,665 yn 2018. Roedd 90% o'r 1,300 o weithwyr yn gweithio Cyfwerth ag Amser Llawn. Y cyflog canolrif ar gyfer y sector oedd £35,583 yn 2020, cynnydd o 2.6% o'i dros y flwyddyn flaenorol. Ar draws y DU, y cyflog canolrifol ar gyfer y sector oedd £33,843, gan ostwng 1% o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd 125 o unedau busnes yn y sector yn 2020, gan gynyddu o'r 120 yn 2019. Mae 83% o fusnesau'r sector yn cael eu dosbarthu fel Micro, i fyny 1% o'r ffigwr o 82% yn 2019.

Cyfanswm gwerth allforion diodydd o Gymru oedd £20.4m yn 2020, gostyngiad o 36% o werth £32m 2019. Y prif gyrchfannau ar gyfer allforion diodydd yn 2020 oedd Iwerddon, yr Iseldiroedd a Sbaen.

Cyfanswm y gwariant ar ddiodydd yng Nghymru oedd £1.2bn yn 2020, cynnydd o 31.2% o'i gymharu â 2019. Roedd y twf hwn mewn gwariant manwerthu ar ddiodydd yn fwy na'r DU gyfan, a oedd â thwf o 23.2% o flwyddyn i flwyddyn.

Gwerthiant Cwrw, Gwinoedd a Gwirodydd (BWS) oedd yn gyfrifol am fwy na 2/3ydd o wariant manwerthu Cymru ar ddiodydd, gyda gwin yn cael y gyfran fwyaf o'r tri. Roedd twf sylweddol o ran cymysgwyr alcohol a diod meddal, wedi'u gyrru gan fwy o achlysuron yfed alcohol yn y cartref yn ystod y cyfnod clo. Ginger Ale oedd â'r twf uchaf allan o'r holl gategorïau diodydd.



— ” —

Cyfanswm y gwariant ar ddiodydd yng Nghymru oedd £1.2bn yn 2020, cynnydd o 31.2% o'i gymharu â 2019.

— “ —

Cynhyrchion Bwyd Eraill

Mae'r sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn cynnwys busnesau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau gweithgynhyrchu canlynol: siwgr, coco, siocled, melysion, te, coffi a gweithgynhyrchu coffi amgen, pupur a halen a a sesnin, prydau parod, a pharatoi bwyd homogenaidd a bwyd deietegol³.

Roedd trosiant y sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn £768m yn 2020, i fyny 10.1% o £697m yn 2019.

Roedd y sector yn cyflogi 6,700 o unigolion yn 2019, cynnydd bach o'r ffigur cyflogi o 6,690 yn 2018. Gweithiodd 96% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector Gyfwerth ag Amser Llawn yn 2019.

Y cyflog canolrif ar gyfer y sector yn 2020 oedd £24,981, cynnydd o 9.2% o'r flwyddyn flaenorol. Roedd gan y DU dwf ychydig yn is rhwng 2019 a 2020, gan gynyddu 3.1%.

Roedd 110 o unedau busnes yn y sector yn 2020, gan gynyddu o'r 100 uned yn 2019. Mae 61% o'r busnesau yn cael eu dosbarthu fel Micro, i fyny 1% o 60% yn 2019. Cynyddodd gwariant manwerthu Cymru ar Felysion yn y Cartref 11.3% rhwng 2019 a 2020, o £211m i £235m. Gwelodd Te a Choffi dwf tebyg hefyd ym marchnad fanwerthu Cymru, gan gynyddu o £102m yn 2019 i £113m yn 2020, sef twf o 11.4%. Tyfodd Melysion yn y Cartref a Te a Choffi yn gyffredinol ar gyfer Prydain Fawr ar gyfradd debyg, gyda gwariant Melysion yn y Cartref yn cynyddu 10.9% a gwariant Te a Choffi yn cynyddu 9.7%.

Gostyngodd gwariant manwerthu ar Brydau Parod oer yng Nghymru rhwng 2019 a 2020 2.9%, gan ostwng o £151m i £146m. Cynyddodd yr un categori ar lefel Prydain Fawr 1.4%.



— ” —
Roedd trosiant y sector
Cynhyrchion Bwyd Eraill yn
£768m yn 2020, i fyny 10.1%
o £697m yn 2019.

— “ —

3. Mae enghreifftiau o baratoi bwyd homogenaidd a bwyd deietegol yn cynnwys fformiwla babanod, llaeth dilynol, bwydydd heb glwten, bwydydd sodiwm isel a bwydydd diabetig.

Llaeth ac Wyau

Roedd gan sector llaeth Cymru drosiant o £441m yn 2020, gan ostwng 27.8% o £611m y flwyddyn flaenorol. Er bod y gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn sylweddol, mae'r duedd hirdymor yn gymharol sefydlog, gyda throsiant yn gostwng 2% yn unig rhwng 2018 a 2020. Mae hyn oherwydd y cynnydd mawr yn 2019 yn gostwng yn ôl i lefelau blaenorol.

Yn 2019 roedd y sector yn cyflogi 1,070 o unigolion, gostyngiad o 30.2% o 1,535 yn 2018. Roedd 85% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector yn gweithio Cyfwerth ag Amser Llawn, i lawr o 93% y flwyddyn flaenorol. Y cyflog canolrif ar gyfer y sector oedd £21,968 yn 2020, i lawr 2.9% o 2019. Cyflog canolrif y DU oedd £27,505 yn yr un flwyddyn, i fyny 7% o 2019.

Yn 2020 roedd 50 o unedau busnes yn y sector, gan ostwng o 55 uned yn y flwyddyn flaenorol. Dosbarthwyd 65% o'r busnesau hyn fel Micro, i fyny o 59% y flwyddyn flaenorol, ac mae 17% yn cael eu dosbarthu fel Bach, gan gyflogi 10-49 o unigolion.

Yn 2020 cymeradwywyd 101 o sefydliadau ar gyfer prosesu wyau neu gynhyrchion wyau, i fyny o 98 y flwyddyn flaenorol, a chymeradwywyd 90 o sefydliadau ar gyfer prosesu llaeth amrwd neu gynnyrch llaeth, sy'n cyfateb i 2019.

Mae'r niferoedd ar gyfer gwartheg godro (buwch 2+ gyda llo) wedi aros yn gymharol gyson yn 2020, sef 252,200, cynnydd bach o 251,600 y flwyddyn flaenorol. Nifer yr ieir a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu wyau (gan gynnwys bridwyr) oedd 2.96m yn 2020, i fyny o 2.68m yn 2019.

Roedd gwariant manwerthu ar gynnyrch llaeth yn 2020 yn £528m, i fyny 15.8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y twf hwn yn uwch na'r DU yn gyffredinol, a dyfodd 13.2% rhwng 2019 a 2020. Parhaodd llaeth i gael y gyfran uchaf o wariant o'r categori cynnyrch llaeth, gyda 'llaeth heb ei oeri' a 'llaeth a hufen diffiniedig' â'r cyfraddau twf cryfaf. Roedd y categorïau hyn yn elwa o'r galw am gynnyrch oes hir a thueddiadau pobi.



— ” —

Yn 2019 roedd y sector yn cyflogi 1,070 o unigolion, gostyngiad o 30.2% o 1,535 yn 2018. Roedd 85% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector yn gweithio Cyfwerth ag Amser Llawn, i lawr o 93% y flwyddyn flaenorol.

— “ —

Pobi

Roedd gan y sector pobi yng Nghymru drosiant o £472m yn 2020, i lawr o £560m y flwyddyn flaenorol.

Roedd y sector yn cyflogi 5,345 o unigolion yn 2019, i lawr o 6,125 yn 2018, gostyngiad o 12.7%. Roedd 89% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector yn gweithio Cyfwerth ag Amser Llawn, sy'n cyfateb i'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2020 roedd 160 o unedau busnes yn y sector, gostyngiad bach ar y 165 uned o'r flwyddyn flaenorol. Dosbarthwyd 70% o'r busnesau fel Micro a chyflogwyd llai na 10 unigolyn, ychydig yn uwch na'r 68% y flwyddyn flaenorol.

Yn 2020 roedd cyflog canolrifol y sector yn £20,662, 14.6% yn uwch na gwerth 2019 o £18,032. Roedd y twf ar gyfer y sector ledled y DU 2.9% rhwng 2019 a 2020.

Roedd gwariant manwerthu yn y sector pobi yng Nghymru yn £473m yn 2020, cynnydd o 6.2% o'i gymharu â 2019. Roedd y twf ar gyfer y farchnad gyfan ledled y DU ychydig yn fwy na Chymru, gyda gwerth o 7.9%. Parhaodd nwyddau boreol i gael y gyfran uchaf o'r farchnad yng Nghymru, sef 23.2%, gan gynyddu ei chyfran 0.8% o'i gymharu â 2019. Bara wedi'i rewi a phastai ffres/oer oedd â'r twf cryfaf o flwyddyn i flwyddyn, gyda gwariant ar fara wedi'i rewi yn cynyddu 56.2% o'i gymharu â 2019.



— ” —

Roedd gwariant manwerthu yn y sector pobi yng Nghymru yn £473m yn 2020, cynnydd o 6.2% o'i gymharu â 2019.

— “ —

Manwerthu a Chyfanwerthu

Roedd gan y diwydiant manwerthu drosiant o £8.8bn yn 2020, i fyny 2.6% o £8.6bn yn 2019.

Roedd y sector yn cyflogi 59,680 o unigolion yn 2019, cynnydd o 1.5% ar y 58,795 a gyflogwyd yn y sector yn 2018. Roedd 27% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn. Cyflog canolrifol y sector yn 2020 oedd £12,808, gostyngiad bychan o 1.0% o'r cyflog canolrifol o £12,934 yn 2019. Cynyddodd cyflog canolrifol y sector ledled y DU yn gyffredinol 1.2%.

Gostyngodd canran y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn y sector o 2018 i 2019 o 29% i 27%, ond yn y DU roedd yn parhau'n gyson ar 33%. Gall hyn fod yn rheswm posibl pam y gostyngodd y cyflog canolrifol ychydig yng Nghymru, o'i gymharu â'r DU a gynyddodd.

Yn 2020 roedd 3,910 o unedau busnes yn y sector, yn gymharol gyson â'r 3,940 o unedau busnes yn 2019. Dosbarthwyd 70% o'r busnesau yn y sector fel Micro yn 2020, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar nwyddau groser oedd £6.4bn yn 2020, cynnydd o 13.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd gan y DU gyfan dwf tebyg ar 12.3% ar draws yr un cyfnod.

Roedd Tesco yn cyfrif am 29.2% o gyfanswm y gyfran o wariant yn 2020, y mwyaf o unrhyw archfarchnad, gan gynyddu ei gyfran 0.4% o 2019. Dilynir Tesco gan Asda (14.9%), Morrisons (10.5%), Lidl (7.0%) ac Aldi (6.1%) mewn perthynas â chyfran gwariant yng Nghymru.

Roedd gan y sector cyfanwerthu drosiant o £2.1bn yn 2020, i fyny o £2.0bn yn 2019.

Roedd y sector cyfanwerthu yn cyflogi 5,985 o unigolion yn 2019, gostyngiad o 12.3% ar y 6,825 a gyflogwyd yn 2018. Roedd 84% o'r rhai yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn. Y cyflog canolrif yn 2020 oedd £23,173 yn y sector cyfanwerthu bwyd, cynnydd o 10.5% ar werth 2019 o £20,975. Cynyddodd cyflogau canolrifol Cymru ar gyfradd uwch na'r DU, a oedd â chyfradd twf o 3.5% rhwng 2019 a 2020.



— ” —

Roedd y sector yn cyflogi 59,680 o unigolion yn 2019, cynnydd o 1.5% ar y 58,795 a gyflogwyd yn y sector yn 2018.

— “ —

Arlwyo

Mae'r sector arlwyo yn cynnwys yr holl arlwyo di-breswyl gan gynnwys bwytai a chaffis, gwasanaeth bwyd, arlwywyr symudol, prydau ar glud, ac arlwyo digwyddiadau.

Roedd gan y sector werth trosiant o £3.2bn yn 2020, cynnydd o 8% ar 2019 (£3.0bn).

Roedd y sector yn cyflogi 89,685 o unigolion yn 2019, cynnydd o 12.6% o 79,630 yn 2018. Roedd 32% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn. Cyflog canolrif y sector oedd £9,535 yn 2020, gostyngiad o 13.3% o £10,998 yn 2019. Gostyngodd cyflogau canolrifol hefyd ar lefel y DU, gan ostwng 6.8% rhwng 2019 a 2020.

Yn 2020 roedd 8,855 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 4.2% o'i gymharu â 2019, lle'r oedd 8,500 o unedau. Dosbarthwyd 74% o'r busnesau yn y sector fel Micro yn 2020, gan gyflogi llai na 10 o bobl. Mae hyn yn cyfateb i 2019.

Yn ôl yr Arolwg Costau Byw a Bwyd, gwariodd pobl yng Nghymru £34.90 yr wythnos ar gyfartaledd ar wasanaethau arlwyo (bwytai, prydau caffi, diodydd alcoholig oddi cartref a phrydau ar glud) yn 2020, i fyny ychydig o £34.20 y flwyddyn flaenorol. Dyma'r ail swm isaf o 4 gwlad y DU, uwchben yr Alban ond yn is na Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cynyddodd gwariant ar fwyd a diod twristiaeth 10.6% yng Nghymru rhwng 2018 a 2019, gan gynyddu o £387m i £428m. Mae hyn yn fwy o gynnydd na Phrydain gyfan, a gynyddodd 5.4% dros yr un cyfnod.



— ” —

Yn 2020 roedd 8,855 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 4.2% o'i gymharu â 2019, lle'r oedd 8,500 o unedau.

— “ —

Atodiad A: Diwydiannau Bwyd a Diod Cymru mewn cyd-destun

| Metrig | Cymru | DU | Cymru fel % o'r DU |
|--------|-------|----|--------------------|
|--------|-------|----|--------------------|

Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

| | | | |
|-------------------|---------|----------|------|
| Trosiant 2019 | £22.1bn | £548.9bn | 4.0% |
| Unedau Lleol 2019 | 27,605 | 457,965 | 6.0% |
| GVA 2019 | £3.85bn | £85.21bn | 4.5% |


Sector Sylfaen Bwyd

| | | | |
|-------------------|--------|----------|------|
| Trosiant 2019 | £8.2bn | £228.6bn | 3.6% |
| Unedau Lleol 2019 | 1,405 | 39,170 | 3.6% |

Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod


| | | | |
|-------------------|---------|----------|------|
| Trosiant 2019 | £5.2bn | £104.5bn | 5.0% |
| Unedau Lleol 2019 | 585 | 13,590 | 4.3% |
| GVA 2019 | £1.74bn | £30.92bn | 5.6% |

Cyflogaeth yn ôl yr is-sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru, 2019




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES). Mae'r categori 'Sectorau sy'n Weddill' yn cynnwys Bwyd Anifeiliaid Parod, Ffrwythau a Llysiau, a Physgod a Chramenogion..


Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2014–2019



Sector Sylfaen Bwyd: Twf Trosiant 2014–2019



Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2014– 019



Atodiad B: Nodiadau Methodolegol

Lluniwyd y data yn yr arfarniad hwn rhwng Ionawr 2021 a Gorffennaf 2021. Yr ystadegau a gyflwynwyd yn yr arfarniad hwn oedd y rhai diweddaraf a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Mae'r ffigurau GVA ar gyfer yr adroddiad hwn yn defnyddio diffiniad newydd a gymerwyd o gyfuniad o sectorau o GVA Rhanbarthol ONS yn y diwydiant, yn wahanol i'r adroddiadau blaenorol a ddefnyddiodd GVA Sector Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, gan arwain at y gwerthoedd GVA cyffredinol is na mewn adroddiadau blaenorol. Mae'r newid hwn wedi'i roi

ar waith gan y bernir bod ffigurau GVA rhanbarthol yr ONS yn fwy cywir, cadarn a dibynadwy. Diffinnir GVA Bwyd a Diod Cymru gan ddefnyddio'r codau SIC07 canlynol:

- 1: Amaethyddiaeth a Hela
- 3: Pysgota a Dyframaethu
- 10: Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd
- 11-12: Gweithgynhyrchu diodydd a chynhyrchion tybaco
- 56: Gweithgareddau gwasanaethau Bwyd a Diod

Ffynonellau

| Data | Ffynhonnell y Data | Y flwyddyn ddiweddaraf ar gael ar gyfer Adroddiad |
|--|--|---|
| Cyflogaeth | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) | 2019 |
| Cyflogaeth (Amaethyddiaeth) | Amcangyfrif o weithwyr cyfwerth ag amser llawn sydd eu hangen yn seiliedig ar oriau gwaith disgwylidig fesul anifail neu hectar o dir. | 2019 |
| Unedau Lleol | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR) | 2020 |
| Maint Busnes (seiliedig ar weithwyr) | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR) | 2020 |
| Gweithwyr yn ôl Maint y Busnes | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR) | 2020 |
| Trosiant | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR) | 2020 |
| Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchoddedig | Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchoddedig – GOV.UK (www.gov.uk) | 2020 |
| Cyflog Canolrifol | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) | 2020 |
| Cyflog Byw | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) | 2020 |
| Busnesau Cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd | Sefydliadau Bwyd Cymeradwy: https://data.food.gov.uk/catalog/datasets/1e61736a-2a1a-4c6a-b8b1-e45912ebc8e3 | 2020 |
| Gwobrau Blas ar Gymru | https://greattasteawards.co.uk/ | 2020 |
| Gwariant Manwerthu | Data Kantar WorldPanel | 2020 |
| Gwerthoedd Allforio | Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Fasnach Ranbarthol mewn Nwyddau | 2020 |
| Gwerthoedd Allforio ar gyfer cig oen a chig eidion Cymru | Amcangyfrifon gan Hybu Cig Cymru (HCC) | 2020 |
| Gwariant cyfartalog ar wasanaethau arlwyo | Adroddiad Blynyddol Kantar The Gb Tourist 2019 | 2020 |
| Gwariant twristiaeth | Adroddiad Blynyddol Kantar The Gb Tourist 2019 | 2019 |
| GVA | GVA Rhanbarthol ONS yn ôl Diwydiant | 2019 |

Lluniwyd yr ystadegau yn y ddogfen hon rhwng Ionawr 2021 a Gorffennaf 2021. Mae'r pwyntiau trafod yn y ddogfen hon yn rhagflaenu'r pandemig COVID-19.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

FoodDivisionalBusiness@gov.wales neu economic.stats@gov.wales